# MODERNEIDDIO ADDYSG – ARDAL BANGOR

Addysg

CYNGOR GWYNEDD

Hydref 2017

## CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol i foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ninas Bangor.

Mae cyfanswm o £12.7 miliwn wedi ei adnabod ar gyfer y gwaith, sy'n cynnwys addewid o £6.35 miliwn gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r Cyngor i adolygu a gwella'r ddarpariaeth addysg.

## ARDAL BANGOR

Mae Cabinet y Cyngor wedi adnabod Bangor fel ardal lle mae angen adolygu darpariaeth addysg gynradd am nifer o resymau. Mae nifer o faterion sydd angen eu hystyried yn nalgylch Bangor, sef:

- Rhai ysgolion yn llawn ac felly angen sicrhau bod digon o le mewn ysgolion ac nad oes unrhyw ysgol yn orlawn
- Sicrhau bod adeiladau'r ysgolion mewn cyflwr da
- Cysoni cost fesul pen yr ysgolion a sicrhau nad oes rhai yn uwch na'i gilydd
- Sicrhau bod ysgolion yn hyfyw i'r dyfodol ac nad ydi ysgolion yn rhy fach i'w cynnal
- Darparu lle ar gyfer plant sy'n byw yn natblygiad tai newydd Goetre Uchaf ym Mhenrhosgarnedd
- Ceisio gwella darpariaeth addysg dalgylch Bangor a manteisio ar arian Llywodraeth Cymru i wneud hyn

## ADRODDIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Mae Adroddiad Cabinet y Cyngor ar Ddarpariaeth Addysg Dalgylch Bangor yn amlinellu'n llawn yr holl ystyriaethau ar gyfer dalgylch Bangor. Ceir yr holl fanylion perthnasol yn yr adroddiad hwn.
Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor:
https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Moderneiddio-Addysg/Adolygu-Darpariaeth-Addysg-Bangor.aspx

## CYD-DESTUN

Mae gan Gyngor Gwynedd weledigaeth i ddatblygu cyfundrefn addysg fydd yn:

"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'n rhaid ystyried newid y ddarpariaeth bresennol a'i gwella mewn unrhyw ffordd bosib.

## RHAGLEN YSGOLION YR UNFED GANRIF AR HUGAIN

Mae'r cyllid ar gael drwy Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru i foderneiddio darpariaeth addysg yng Nghymru. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu arian cyfatebol er mwyn manteisio ar gyllid y Llywodraeth sydd ar gael i wella darpariaeth addysg, ac mae ardal Bangor yn un o'r ardaloedd fyddai'n gallu elwa o'r arian hwn.

## PANEL ADOLYGU DALGYLCH (PAD)

Fel rhan o'r broses ymgysylltu, mae Panel Adolygu Dalgylch Bangor (PAD) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, aelodau lleol ac eraill, wedi ei sefydlu er mwyn trafod darpariaeth addysg yn yr ardal i'r dyfodol.
**Aelodaeth y Panel Adolygu yn cynnwys:**

- **Aelod Cabinet Addysg**
- **Cynghorwyr Lleol**
- **Pennaeth, Cadeirydd llywodraethwyr a rhiant lywodraethwr o'r bob ysgol**
- **Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd**
- **Swyddogion eraill Cyngor Gwynedd**
- **Cynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig**

Pwrpas cyfarfodydd y PAD yw rhoi cyfle i bawb ystyried y sefyllfa bresennol yn nalgylch Bangor ac i ystyried sut mae sicrhau darpariaeth addysg o'r radd flaenaf i'r dyfodol. Cafodd cyfarfod cyntaf y PAD ei gynnal ar 26 Mehefin 2017 a'r ail ar 10 Gorffennaf 2017.

Cafodd aelodau'r panel nifer o bapurau fel sail i'r drafodaeth. Yn eu mysg roedd:

- Lleoliad yr ysgolion
- Niferoedd disgyblion a rhagamcanion
- Capasiti ysgolion a llefydd gweigion
- Sefyllfa penaethiaid a materion recriwtio
- Maint dosbarthiadau
- Gwybodaeth o ble y daw disgyblion
- Dyraniadau ariannol yr ysgolion
- Proffil ieithyddol yr ysgolion
- Addasrwydd adeiladau
- Cyfleusterau ac adnoddau yn yr ysgolion
- Defnydd cymunedol

## TREFNIADAU CYFATHREBU

Mae'r Cyngor yn awyddus i staff, rhieni a disgyblion bob ysgol i fod yn llwyr ymwybodol o'r trafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor felly'n paratoi newyddlen i ddiweddaru pawb ynghylch y trafodaethau a'r datblygiadau. Bydd aelodau lleol y panel hefyd yn hysbysu a diweddaru staff, llywodraethwyr a rhieni o'r hyn sy'n digwydd ar hyd y daith.

## Y CAMAU NESAF

| | |
|---|---|
| **Hydref 2017** | Bydd y Panel Adolygu Dalgylch yn cyfarfod am y trydydd tro yn ystod mis Hydref er mwyn trafod opsiynau posib ym Mangor cyn penderfynu ar opsiwn mae'n ei ffafrio ar gyfer ymateb i anghenion addysg yr ardal. |
| **Rhagfyr 2017** | Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd i'w ystyried a bydd yn gofyn caniatâd y Cabinet i ymgynghori'n statudol ar opsiwn ffafredig ar gyfer yr ardal. |
| **I'w gadarnhau** | Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bydd ymgynghoriad statudol yn digwydd a bydd pawb yn cael rhoi eu barn ar yr opsiwn ffafredig. |
| **Mai 2018** | Penderfyniad terfynol y Cabinet |

Byddwn yn eich diweddaru ar hyd y daith ac yn eich hysbysu o unrhyw beth sy'n debygol o effeithio ar unrhyw ysgol neu ar addysg eich plant fel y daw hynny i'r amlwg.

Mae mwy o wybodaeth am Foderneiddio Addysg ar gael ar wefan y Cyngor ar
www.gwynedd.llyw.cymru/ModerneiddioAddysg
neu drwy gysylltu â'r Swyddfa Addysg: ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL